# Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-01-08)

**Dyddiad: 17 Ionawr 2008**
**Amser: 9:00 - 10:30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Alun Ffred Jones, Arfon
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Dr Steven Marshall, Pennaeth yr Uned Ystadegau Craidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Kate Chamberlain, Prif Ystadegydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### Eitem 2: Ymchwiliad i dlodi ac amddifadedd yn y Gymru Wledig: sesiwn dystiolaeth

2.1 Croesawyd y Dr Steven Marshall a Kate Chamberlain i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac fe'u gwahoddwyd i gyflwyno'u papur. Yna gwahoddwyd yr Aelodau i roi sylwadau a holi'r tystion.

2.2 Cytunodd y tystion i baratoi papur byr yn nodi'r gost o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac yn cymharu'r gwasanaethau hyn â'r rhai a ddarperir mewn ardaloedd trefol.

### Eitem 3: Ymchwiliad i dlodi ac amddifadedd yn y Gymru wledig: galw am dystiolaeth ysgrifenedig

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd bapur ar alwad arfaethedig am dystiolaeth ysgrifenedig a rhestr yn nodi ymgyngoreion posibl ar gyfer ymchwiliad yr is-bwyllgor i dlodi ac amddifadedd yn y Gymru wledig. Yna, gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor ar gynnwys yr alwad am dystiolaeth a'r rhestr o ymgyngoreion posibl, yn amodol ar gynnwys y gair 'amddifadedd' pan ddefnyddir y gair 'tlodi'.

### Eitem 4: Cynnig i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 a 6 yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi)

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5 a 6, er mwyn i aelodau'r Pwyllgor gael ystyried dau o'u hadroddiadau drafft.

4.2 Derbyniwyd y cynnig gan y Pwyllgor.

Cynhaliwyd gweddill y pwyllgor mewn sesiwn breifat.

### Eitem 5: Ymchwiliad i dwbercwlosis mewn gwartheg yng Nghymru: ystyried yr adroddiad drafft (mewn sesiwn breifat)

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad drafft ar ymchwiliad y Pwyllgor i dwbercwlosis mewn gwartheg a gwahoddodd yr Aelodau i roi sylwadau.

5.2 Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad heb ei ddiwygio. Nid oedd Lorraine Barret o blaid argymhelliad 7 yr adroddiad a nodwyd ei gwrthwynebiad gan y Pwyllgor.

### Eitem 6: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argyfwng clwy'r traed a'r genau: ystyried yr adroddiad drafft (mewn sesiwn breifat)

6.1 Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad drafft ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argyfwng clwy'r traed a'r genau a gofynnodd i'r Aelodau am eu sylwadau.

6.2 Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad heb ei ddiwygio.